# ADFYWIO BANGOR

05/11/2024

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi Transforming Towns
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sustainable Communities for Learning
Funded by UK Government Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
CYNGOR GWYNEDD



### HWB DYSGU GYDOL OES I AGOR YNG NGHANOL STRYD FAWR BANGOR

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cyhoeddi cynlluniau i agor canolfan dysgu oedolion newydd, sef Tŷ Cyfle, ar Stryd Fawr Bangor. Mewn partneriaeth â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a Trawsnewid Trefi, mae hen safle Topshop yn cael ei thrawsnewid yn safle aml-ddefnydd, er budd trigolion Bangor a'r ardal ehangach. Bydd TŷCyfle yn cynnig nifer o gyrsiau rhan-amser yn cynnwys cyrsiau llythrennedd, sgiliau digidol, cyflogadwyedd a mwy. Bydd hefyd sesiynau blasu sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a chymorth sgiliau bywyd fel rheolaeth ariannol a lles. Bydd y cynllun yn datblygu pedair ystafell ddosbarth, mannau cyfarfod a swyddfeydd parhaol ar gyfer myfyrwyr i ymgysylltu a'r gymuned.

Dywedodd y Pennaeth Siôn Peters-Flynn, "Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael presenoldeb ar y stryd fawr ym Mangor a bod yn rhan ganolog o'r gymuned. Gan ei fod yng nghanol y ddinas ac yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, mae'n lleoliad delfrydol i ddysgwyr allu ei gyrraedd mewn ffordd gynaliadwy"

Diolchodd i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth, gan ychwanegu bod disgwyl i Dŷ Cyfle agor ym mis Ionawr 2025.

### PERFFORMIAD OLION YN DOD Â LLIW I FANGOR

Trawsnewidiodd Frân Wen, cwmni theatr Cymraeg sydd bellach wedi'i leoli yn yr hen eglwys ar Ffordd Garth, rannau o Fangor yn lwyfan theatr fyw ar gyfer eu cynhyrchiad diweddaraf Olion. Defnyddiodd Olion lwyfannau mewn gwahanol leoliadau o amgylch Bangor gan gynnwys Pontio, y Pier, Ffordd Garth, Hirael a Nyth. Daeth i ben gyda pherfformiad ar faes Manweb/Glynne Road, gyda dros 1,000 o bobl yn mynychu ynghyd a Gŵyl Adda, sef gŵyl gymunedol a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r sioe. Roedd y cynhyrchiad yn cynnwys dros 100 o berfformwyr, rhai yn berfformwyr proffesiynol a rhai o gymuned Bangor. Ariannwyd Olion yn rhannol gan Gronfa Ffyniant Gyffredin a rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru / Y Deyrnas Unedig.



# ADFYWIO BANGOR

05/11/2024

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi Transforming Towns — Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sustainable Communities for Learning

Funded by UK Government — Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD



### DATHLU DINAS BANGOR YN 1500

Fel dinas hynaf Cymru, bydd Bangor yn dathlu ei phen-blwydd yn 1500 yn 2025. Mae calendr llawn o ddigwyddiadau wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn gyfan, gyda'r uchafbwyntiau'n cynnwys wythnos arbennig o weithgareddau o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi. Mae cynlluniau hefyd wedi dechrau ar gyfer plannu 15,000 o gennin Pedr i flodeuo ar draws y ddinas erbyn gwanwyn nesaf. Bydd menter "Bangor Ar Draws y Byd" yn ymestyn allan i lefydd eraill o'r enw Bangor, a bydd capsiwl amser yn cadw atgofion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ar Fai 29ain, bydd y ddinas yn cynnal gorymdaith i nodi'r achlysur. Bydd rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn ac eraill yn cael ei rhyddhau'n fuan, wrth i'r ddinas baratoi i adlewyrchu ei threftadaeth gyfoethog a'i chymuned fywiog.

### ADRA YN AGOSÁU AT ORFFEN DATBLYGIAD NEWYDD AR 137 STRYD FAWR

Mae'r gwaith o ddatblygu 12 o fflatiau ar 137 stryd fawr Bangor ar fin cael ei gwblhau. Mae Adra yn arwain ar y cynllun tra y bydd yr adeilad a'r gwasanaethau ategol yn cael ei reoli mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd a Tai Gogledd Cymru. Bydd yr adeilad yn cynnig gwasanaeth ar-alw 24-awr, a chefnogaeth i helpu pobl i gynnal tenantiaeth tymor-hir. Ariannwyd y prosiect yn rhannol gan Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru drwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd a bydd yn dod â safle sydd wedi bod yn segur ers peth amser yn ôl i ddefnydd yng nghanol Stryd Fawr Bangor.





### PRIFYSGOL BANGOR YN LANSIO YSGOL FEDDYGOL NEWYDD.

Croesawyd y Brif Weinidog Eluned Morgan i Fangor ar ddechrau'r tymor academaidd i lansio'r ysgol feddygol newydd yn y Brifysgol. Un o brif nodau'r ysgol yw i adfywio gofal iechyd yn y rhanbarth, drwy ateb y galw am fwy o feddygon yn yr ardal. Drwy gynnig y cyfle i fyfyrwyr gwblhau eu hyfforddiant meddygol llawn yng Ngogledd Cymru, mae'r ysgol yn bwriadu cynyddu ei chymeriant o 80 o fyfyrwyr i 140 erbyn 2029. Mae'r ymdrech i geisio meithrin cenhedlaeth newydd o feddygon sy'n ymrwymo i ddatblygu gyrfaoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yn y Gogledd, am helpu i lenwi 4,300 o swyddi gwag y GIG sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

# ADFYWIO BANGOR

05/11/2024

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi Transforming Towns | Llywodraeth Cymru Welsh Government | Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sustainable Communities for Learning | Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD



### MURLUN NEWYDD I FFORDD SACKVILE

Mae murlun newydd ar fin cael ei orffen ar adeilad Canolfan Ddydd Annedd Ni ar Ffordd Sackville ym Mangor. Cynlluniwyd y prosiect drwy gydweithio brwd rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Bangor ac Anheddau Cyf, sefydliad di-elw sy'n darparu gwasanaethau cymorth i oedolion ag awtistiaeth, anableddau dysgu, iechyd meddwl, ac anghenion eraill yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae artist lleol, Jessica Balla wedi'i phenodi ar gyfer y prosiect. Mae'r murlun yn amlygu atyniadau unigryw Bangor gan gynnwys y pier eiconig, a thŵr y cloc gyda phen crwn. Fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer y prosiect, cafodd grwpiau cymunedol lleol o fewn Bangor gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy ar gyfer dylunio'r murlun a chafodd defnyddwyr gwasanaeth Annedd Ni gyfle i gynorthwyo gyda phaentio y rhan isaf. Cafodd ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd.